Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diwylliant yng Nghymru

## Syniadau pwysig sydd gennym ni am ddiwylliant yng Nghymru

Mai 2025














# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau glas yn ei feddwl ar **dudalen 24**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant**'.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** diwylliant@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Pam rydyn ni'n gofalu am ddiwylliant yng Nghymru ............... 4**

**Diwylliant – beth sy'n bwysig ........................................................ 6**

1. Mae diwylliant yn dod â phobl at ei gilydd ........................ 7


2. Dathlu Cymru fel cenedl o ddiwylliant ............................. 11

3. Mae diwylliant yn gryf ac yn para ...................................... 15


**Y gwahaniaeth fydd ein nodau yn ei wneud ........................... 21**

**Geiriau anodd ...................................................................... 24**


# Pam rydyn ni’n gofalu am ddiwylliant yng Nghymru



Mae **diwylliant** yn meddwl ‘ffordd o fyw’. Mae’n meddwl y pethau sydd yn cael eu rhannu rydyn ni’n eu mwynhau, yn credu, hanes ac iaith.



Mae yna gyfraith bwysig yng Nghymru, o’r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**. Mae’n sôn sut mae **diwylliant** Cymru yn bwysig i les pobl.




Mae’n rhaid i ni wneud yn siŵr bod gennym ni nodau am **ddiwylliant** yng Nghymru. Rhaid i ni edrych ar sut fydd y nodau yma yn helpu pobl.



Mae’r **sector diwylliant** yn gwneud llawer o waith i helpu pobl i brofi **diwylliant**.



Mae’r rhain yn sefydliadau sy’n ymwneud â’r celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau ac adeiladau hanesyddol.



Rydyn ni eisiau i **ddiwylliant** yng Nghymru gael ei gynllunio’n dda gyda digon o arian.



Mae’n rhaid iddo fod yn rhan bwysig o fywyd bob dydd yng Nghymru.



# Diwylliant – beth sy'n bwysig




Mae gennym ni 3 syniad mawr am pam mae **diwylliant** yn bwysig. Rydyn ni'n galw'r rhain yn **flaenoriaethau ar gyfer diwylliant**. Dyma nhw:

1. Mae **diwylliant** yn dod â phobl at ei gilydd
2. Dathlu Cymru fel gwlad **diwylliant**
3. Mae **diwylliant** yn gryf ac yn para




**Blaenoriaethau** ydy'r pethau rydyn ni'n meddwl sydd bwysicaf. Blaenoriaethau ydy'r prif bethau rydyn ni am eu gwneud.



Fe fyddwn ni nawr yn siarad am y 3 **blaenoriaeth** yma  a beth ddylen nhw ei gynnwys.

# 1. Mae diwylliant yn dod â phobl at ei gilydd



## Cysylltu




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu mwynhau **diwylliant**.



Fe ddylai pawb deimlo eu bod yn gallu cymryd rhan, pwy bynnag ydyn nhw. A pha bynnag anghenion sydd ganddyn nhw.



Fe ddylai gwasanaethau diwylliannol fod yn **hygyrch** hefyd.




Mae **hygyrch** yn meddwl hawdd i bobl ei ddefnyddio, beth bynnag ydy eu hanghenion.




Fe ddylai fod gwasanaethau am ddim i bobl. Fe ddylai pobl allu cyrraedd lleoedd yn hawdd.

## Lleoedd



Mae gan gymunedau eu hanes, straeon a phethau eu hunain sy'n bwysig iddyn nhw.



Fe ddylai pobl allu cymryd rhan yn y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

## Plant a phobl ifanc



Mae gan bob plentyn yr hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau **diwylliannol**, beth bynnag ydy eu cefndir.



Rhaid cael gwasanaethau cyfeillgar i deuluoedd ym mhob rhan o'r **sector diwylliant**.



Mae **diwylliant** yn gallu helpu i gysylltu pobl o bob oedran.

## Lles



Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau **diwylliannol** yn dda i iechyd a lles pobl.



Mae'n rhoi cyfle i bobl gymryd rhan a chyfarfod â phobl eraill.



Mae llawer o waith yn digwydd yn y **sector diwylliant** i gefnogi lles. Rydyn ni eisiau i hyn barhau i dyfu.





# 2. Dathlu Cymru fel cenedl o ddiwylliant

## Ieithoedd




Mae’r Gymraeg yn rhan bwysig o’n hanes a’n dyfodol.




Fe ddylen ni ddathlu’r Gymraeg.




Mae angen i ni gydnabod pa mor bwysig ydy ieithoedd eraill yng Nghymru hefyd.



Mae hyn yn meddwl rhannu gwybodaeth gyda phobl mewn ffordd sy'n iawn i'w hanghenion. Er enghraifft, mewn fersiwn Hawdd ei Ddeall.




## Dweud wrth y byd am Gymru



Rydyn ni eisiau i bobl sy'n dod i Gymru ddysgu mwy am ein **diwylliant** a'n hanes.



Mae'n bwysig i ni weithio gyda gwledydd eraill a rhannu beth rydyn ni'n ei wneud.




Fe ddylen ni gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n hyrwyddo ein **diwylliant**.

## Dathlu diwylliant



Mae ein **diwylliant** yn ein helpu ni i deimlo'n Gymreig.



Mae gennym ni gymaint i'w ddathlu yng Nghymru.



Mae angen i ni ddod o hyd i fwy o ffyrdd o ddathlu **diwylliant** yng Nghymru drwy gydol y flwyddyn.





# 3. Mae diwylliant yn gryf ac yn para

## Gofalu



Mae angen i ni edrych ar ôl ein lleoedd a'n casgliadau hanesyddol.



Mae angen i ni fuddsoddi arian ynddyn nhw, fel eu bod yn aros mewn cyflwr da.



Fe ddylai ein hamgueddfeydd, celf a hanes fod yn berthnasol i bawb, pwy bynnag ydyn nhw.

## Cydweithio



Fe ddylai'r **sector diwylliant** weithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn helpu i'w wneud yn gryfach.



Maen nhw yn gweithio'n dda gyda sefydliadau eraill yn barod. Er enghraifft, twristiaeth.



Rydyn ni eisiau i'n sector diwylliant weithio gyda sefydliadau gwahanol. Er enghraifft, am yr amgylchedd ac addysg.

## Digidol




Mae angen i ni gynllunio'n ofalus ar gyfer gweithio ar-lein.




Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y gwaith rydyn ni'n ei wneud ar gyfer gwefannau a gwaith ar-lein arall yn ddiogel. Fe ddylai hefyd fod o ansawdd uchel.



Mae angen i bob lefel o staff allu gweithio ar-lein a gyda chyfrifiaduron.



Rydyn ni hefyd eisiau i'n defnydd o dechnoleg dyfu.



Mae defnyddio gwasanaethau ar-lein yn ein helpu i gyrraedd mwy o bobl. Mae'n helpu pobl i gymryd rhan mewn **diwylliant** yng Nghymru.

## Ymchwil



Mae angen i ni ddysgu mwy am **diwylliant** yng Nghymru drwy wneud ymchwil.

## Gweithio



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod pobl sy'n gweithio yn y **sector diwylliant** yn cael eu trin yn deg.



Mae llawer o bobl yn **llawrydd**. Mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y sefydliad maen nhw'n gweithio iddo. Ac ni fydd ganddyn nhw gymaint o hawliau.



Fe ddylai pob aelod o staff dderbyn cyflog teg.



Mae yna hefyd lawer o wirfoddolwyr yn gweithio yn y **sector diwylliant**. Dydy gwirfoddolwyr ddim yn cael eu talu. Mae’n rhaid i ni wneud yn siŵr eu bod yn cael eu trin yn dda.




Mae’r **sector diwylliant** hefyd angen staff gyda sgiliau penodol iawn. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y rolau yma yn cael eu llenwi.



Mae gwneud yn siŵr bod gennym ni weithlu medrus yn gofyn am gynllunio gofalus.



## Natur a gofalu am ein planed



Mae **diwylliant** yn ffordd mae pobl yn gallu dysgu am natur a gofalu am y blaned.



Mae’n rhaid i ni feddwl am ofalu am y blaned yn ein holl waith.



Fe fydd niwed i’r amgylchedd a thymheredd poethach yn effeithio ar bethau sy’n bwysig i ni.

# Y gwahaniaeth fydd ein nodau yn ei wneud



Trwy wneud y gwaith yn y 3 maes **blaenoriaeth** rydyn ni'n gobeithio gwneud llawer.

Rhai o'r pethau rydyn ni'n gobeithio eu gweld ydy:



- Datblygiad plant ifanc.



- Mwy o bobl yn gweithio mewn swyddi sefydlog.




- Cyflog cyfartal a theg.



- Mwy o bobl yn cael dweud eu dweud.



- Mae pobl yn gallu defnyddio'r gwasanaethau maen nhw eu hangen.



- Mae pobl yn hapus gyda'r ardal lle maen nhw'n byw.




- Mae pobl yn cyd-fynd yn dda gyda'i gilydd ac yn parchu ei gilydd.



- Gwell lles.



- Mwy o bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a **diwylliant.**




- Mwy o bobl sy’n siarad Cymraeg.



- Amgylchedd glanach.



- Mae mwy o bobl yn teimlo eu bod nhw’n gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein.

# Geiriau anodd

### Blaenoriaethau

Blaenoriaethau ydy'r pethau rydyn ni'n meddwl sy'n bwysicaf. Blaenoriaethau ydy'r prif bethau rydyn ni eisiau eu gwneud.

### Diwylliant

Mae hyn yn meddwl 'ffordd o fyw'. Mae'n meddwl pethau sydd yn cael eu rhannu rydyn ni'n eu mwynhau, yn credu, hanes ac iaith.

### Hygyrch.

Mae hyn yn meddwl hawdd i bobl eu defnyddio, beth bynnag ydy eu hanghenion.